**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-983
Ein cyf/Our ref RE/00433/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

8 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr, yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynglŷn â chymorth grant ardrethi annomestig i fusnesau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth gwerth £1.7 biliwn i helpu busnesau yng Nghymru yn ystod argyfwng y coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd pob busnes yn elwa ar y rhyddhad ardrethi a'r cymorth grant sy'n cael eu darparu. Mae'r pecyn wedi cael ei gynllunio mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn fforddiadwy o fewn y cyllid sydd ar gael.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi creu pecyn cymorth arall i helpu busnesau nad ydynt yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi na grantiau busnes sy'n ymwneud ag ardrethi. Ar 30 Mawrth, cyhoeddodd y Prif Weinidog becyn cymorth gwerth £500 miliwn i'w ddarparu drwy ein Cronfa Cadernid Economaidd newydd. Mae'r gronfa hon yn cefnogi cwmnïau o bob maint, gan ganolbwyntio ar y rheini nad ydynt wedi elwa ar ryddhad ardrethi a grantiau i'w helpu i ymdopi ag effeithiau'r coronafeirws.

Fe ail-agorodd gwiriwr cymhwysedd y Gronfa Cadernid Economaidd ddydd Mawrth 9 Mehefin, ac mae'r gronfa bellach ar agor i gael ceisiadau newydd. Mae'r gwiriwr cymhwysedd ar gael yn: https://fundchecker.businesswales.gov.wales/cy

O dan gam nesaf y gronfa, bydd busnesau'n gallu cael mynediad at £100m arall. Bydd y cyllid hwn yn cael ei dargedu at ficrofusnesau, busnesau bach a chanolig, a busnesau mawr, sydd o bwys economaidd critigol ond nad ydynt wedi cael cymorth ariannol gan y gronfa hyd yn hyn.

Yn y cyfamser, rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ymestyn ei chymorth, gan ddarparu'r cyllid hanfodol y mae ei angen ar fusnesau Cymru, er mwyn iddynt allu goroesi, ac adfer o effeithiau'r coronafeirws.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi ail-flaenoriaethu cyllidebau i greu'r cynnig cymorth mwyaf hael i fusnesau yn y DU, er mwyn cefnogi busnesau cynaliadwy a'r swyddi y maent yn eu darparu. Mae'r pecyn £1.7bn yr ydym wedi ei neilltuo yn fwy na'r cyllid cysylltiedig yr ydym wedi ei gael gan Lywodraeth y DU, er mwyn inni allu cynnig y cymorth gorau posibl yn ystod yr argyfwng hwn.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd